# Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

**2017 dccc 1**

**RHAN 6**

FFURFLENNI TRETH A THALIADAU

**PENNOD 3**

GOHIRIO TRETH

**62 Amrywio ceisiadau gohirio**

(1) Pan fo ACC wedi cytuno i gais gohirio, caiff y prynwr roi hysbysiad i ACC yn gofyn am—

(a) newid y dyddiad terfyn disgwyliedig;

(b) amrywio neu godi amod a orfodwyd o dan adran 58(6)(c).

(2) Rhaid i gais o dan is-adran (1) bennu'r newid mewn amgylchiadau y cred y prynwr ei fod yn cyfiawnhau'r newid, neu'n cyfiawnhau amrywio neu godi'r amod.

(3) Os yw ACC o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny, caiff—

(a) cytuno i'r cais a wneir o dan is-adran (1), neu

(b) cytuno i—

(i) dyddiad terfyn disgwyliedig gwahanol i'r hyn y gofynnwyd amdano o dan is-adran (1)(a);

(ii) amrywiad gwahanol i amod i'r hyn y gofynnwyd amdano o dan is-adran (1)(b).

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Adran 62. (See end of Document for details)*

(4) Pan fo ACC yn gwneud penderfyniad o dan yr adran hon rhaid iddo ddyroddi hysbysiad i'r prynwr yn nodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 62 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** A. 62 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Adran 62.